**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/LA_/2126/15

Christine Chapman AC / AM
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Gorffennaf 2015

Annwyl Christine,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mehefin ynghylch gwaith etifeddol y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rwy'n ymddiheuro am oedi wrth ymateb.

Gofynnoch am y diweddaraf ar hynt ymchwiliadau'r Pwyllgor yn fy mhortffolio – diogelwch cymunedol yng Nghymru a chynnydd o ran cydweithio mewn llywodraeth leol, ynghyd â gwybodaeth ynghylch rhoi deddfwriaeth Cymru ar waith. Gofynnoch i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am y diweddaraf mewn perthynas â'r ymchwiliad masnachu pobl. Mae materion ynghylch eich ymchwiliad masnachu pobl hefyd yn rhan o fy mhortffolio, ac rwyf wedi cynnwys y diweddaraf am yr argymhellion hynny.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru yn 2011 ac ymatebodd fy nghyd-aelod iddo, sef y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd. Ar yr un pryd, derbyniom bump o'r chwe argymhelliad, a gwrthodom un. Gwnaed cynnydd sylweddol ers hynny.

Fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol. Mae'r swyddogion hyn wedi bod yn gweithio ers mis Hydref 2013. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd adroddiad Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu ar rôl ac effeithiolrwydd y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol ar strydoedd Cymru. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod ein swyddogion ychwanegol i'w gweld yn amlwg ar ein strydoedd a'u bod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd drwy ymdrin â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefel isel.

Mae cam-drin domestig yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, gan ymgysylltu'n barhaus â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabliaid, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ac eraill. Mae gan ACPO gynrychiolaeth ar fy Nghrŵp Cynghori Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Byddwn yn gweithio'n agos gydag ACPO i ddatblygu ein strategaeth genedlaethol yn unol â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer lluoedd Cymru a'r pedwar Prif Gwnstabl. Hefyd, daeth y pedwar Prif Gwnstabl i gyfarfod y Cabinet ar 23 Mawrth. Mae Uned Cyswllt yr Heddlu yn Llywodraeth Cymru wedi cael ei chryfhau ac mae bellach yn cynnwys pum swyddog a staff sydd mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ystod o faterion polisi.

Mae'r Comisiynwyr a Throseddu bellach yn gyfrifol am y mater o gau gorsafoedd heddlu.

Roedd yr argymhelliad a wrthodwyd yn ymwneud â gwasanaethau a swyddi sy'n cael eu hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref. Fel y dywedodd fy rhagflaenydd, ni ddylai Llywodraeth Cymru dalu am ostyngiadau mewn cyllid o ffynonellau eraill. Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllidebau'r heddlu ar gyfer 2015-16 ar 17 Mehefin.

Parthed yr ymchwiliad i'r cynnydd o ran cydweithio mewn llywodraeth leol, gwnaed chwe argymhelliad; derbyniodd y Llywodraeth bump ohonynt a derbyniodd un mewn egwyddor. Cyhoeddwyd ymateb fy nghyd-aelod, sef y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, ynghyd â'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r sefyllfa o ran gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn benodol llywodraeth leol yng Nghymru, wedi newid yn sylweddol ers hynny.

Roedd un o'r 20 o gamau gweithredu lefel uchel yn y ddogfen *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru* yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod pob cydweithrediad a phartneriaeth yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd i sicrhau eglurder, lleihau cymhlethdod ac osgoi dyblygu. Yng nghyd-destun diwygio llywodraeth leol, mae'n arbennig o berthnasol ein bod yn sicrhau, lle bo'n bosibl, bod cydweithrediadau nawr ac yn y dyfodol yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdodau lleol unedig newydd.

Ar 17 Mehefin, cyhoeddwyd yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer trefn awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae rhannu ffiniau awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill fel iechyd wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth feddwl am y map ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes i nodi'r cydweithrediadau rhanbarthol mwyaf strategol bwysig, sy'n dangos eu bod yn fras yn cyd-fynd yn dda â'r cynigion ac yn gyson ag Ôl-troed Cydweithredol Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Papur Gwyn *Grym i Bobl Leol* yn amlinellu'r berthynas yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn ogystal ag ystyried craffu ar waith cydweithredol rhanbarthol. Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu hefyd wedi cael pwerau i adolygu a chraffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd materion adnoddau'n cael eu hystyried yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil drafft ar uno a diwygio i'w gyhoeddi yn yr hydref.

Yn y cyfamser, byddaf i a fy swyddogion yn parhau â'n rhaglen o ymgysylltu â llywodraeth leol. Rwyf wedi sefydlu Panel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyfarfu'n fwyaf diweddar ar 16 Gorffennaf, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Anerchais gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Mehefin a bydd cyfres o gyfarfodydd rhwng swyddogion yn cael ei chynnal dros yr haf.

O ran yr ymchwiliad i fasnachu pobl, roedd eich llythyr at fy nghyd-aelod, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth gynt, yn cynnwys nifer o argymhellion rydym wedi eu hystyried yn ofalus iawn. Mae codi ymwybyddiaeth ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yn rhan annatod o Gynllun Cyflawni Atal Caethwasiaeth 2015-16, ac mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn parhau i weithio gyda staff ar draws y sector cyhoeddus. Un enghraifft o hyn yw Cynhadledd Atal Caethwasiaeth Cymru a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf. Hefyd, bu ffocws ar gryfhau'r cysylltiadau ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o nifer o ymchwiliadau ac erlyniadau uchel eu proffil yng Nghymru a'r DU.

Yng nghyd-destun Deddf Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth y DU 2015, mae'r ymgysylltu ag awdurdodau lleol wedi cryfhau. Mae Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, yn cynrychioli awdurdodau lleol ar y Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth ac mae cynrychiolaeth dda o'r sector ar draws ein fforymau rhanbarthol. Cyhoeddais ail Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth ym mis Tachwedd 2014 a chynhaliom gynhadledd genedlaethol ym mis Ionawr 2015. Rydym wrthi'n ailddatblygu'r wefan Byw Heb Ofn, a fydd yn cael ei lansio'n ddiweddarach eleni. Bydd y wefan yn cynnwys adran ar yr agenda atal caethwasiaeth er mwyn codi'r proffil ymhellach.

Gofynnoch am y diweddaraf ar weithredu'r darpariaethau yn neddfwriaeth Cymru sy'n rhan o fy mhortffolio. Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r trefniadau gweithredu ar gyfer Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar y gweill, a chyhoeddwyd penodiad y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf, Rhian Bowen-Davies, ar 15 Gorffennaf. Bydd Ms Bowen-Davies yn cychwyn y rôl ar 28 Medi ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda hi.

Byddwn yn fodlon rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y materion hyn yn sesiwn y Pwyllgor sydd i'w chynnal ar 24 Medi.

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services